**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hinsawdd, Natur a Llesiant**

**Cross Party Group on Climate, Nature and Wellbeing**

17:00 – 18:00

26.10.2023

Cyfarfod ar-lein dros Zoom

Virtual meeting over Zoom

1. Croeso a chyflwyniad

Welcome and introduction

Delyth Jewell AS/MS

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Minutes of the last meeting

Delyth Jewell AS/MS

3. Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru

Youth Climate Ambassadors for Wales

4. Newid hinsawdd mewn ysgolion

Rhiannon Hawkins, cynrychiolydd person ifanc yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion ac ymddiriedolwr yn y Green Economics Institute

Climate Change in Schools

Rhiannon Hawkins, young person representative for the Royal College of Psychiatrists and trustee at the Green Economics Institute

5. Trafodaeth grŵp a chyflwyno gwaith diweddar

Group discussion and presentation of recent work

6. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Any other business and date of next meeting

Delyth Jewell AS/MS

**Yn bresennol:**Antonia Fabian (AF), Erin Owain (EO), Ioan Bellin (IB), Laura Haig (LH), Michelle Bales (MB), Luke Jefferies (LJ), Ollie John (OJ), Patrick Jones (PJ), Rhiannon Hawkins (RH), Rob Palmizi (RP),

**Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol:**Delyth Jewell AS (DJ)

**Ymddiheuriadau:** Delun Gibby, Heledd Fychan AS, Llyr Gruffydd AS, Mike Hedges AS, Molly Hucker

**Cofnodion**

**Croeso a chyflwyniad / Welcome and introduction**

Cafodd aelodau'r grŵp eu croesawu a'u cyflwyno gan DJ. Yna, nododd DJ unrhyw ymddiheuriadau.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting**

Bydd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu cytuno yng nghyfarfod dilynol y Grŵp Trawsbleidiol.

**Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru / Youth Climate Ambassadors for Wales**

Dywedodd RH fod y Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid wedi lansio deiseb ym mis Gorffennaf er mwyn ceisio gorfodi'r Llywodraeth i gydnabod effaith newid hinsawdd ar ffoaduriaid, a'r ffaith bod pobl yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi yn sgil rhesymau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Mae'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid yn galw ar wleidyddion lleol a sefydliadau eraill i lofnodi'r ddeiseb.

Mae'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid hefyd wedi cynnal cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol yn ddiweddar.

Gofynnodd LJ faint o lysgenhadon oedd yn rhan o'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid, a pha mor hir y mae'r cynllun hwn wedi bod ar waith. Gofynnodd hefyd a fyddai gan y llysgenhadon ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil.

Dywedodd RH fod rhwng 30 a 60 o lysgenhadon yn rhan o'r cynllun, gan gynnwys rhai sy'n iau na 18 oed ac aelodau hŷn. Cytunodd y byddai'n ddiddorol gwneud rhywfaint o waith ymchwil parthed y llysgenhadon sy'n gweithio i ysgogi newid cyfreithiol a gweithredu ymhlith pobl ifanc.

Soniodd LH am y ffaith bod fod Eco-Sgolion Cymru a Maint Cymru yn cynnal digwyddiad COP ieuenctid ym mis Tachwedd, a fydd yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r COP go iawn. Anogodd RH i rannu'r wybodaeth hon.

Atebodd RH y byddai modd iddi ei rhannu gyda'i chysylltiadau mewn ysgolion a'r bobl ar ei rhestr bostio.

**Newid hinsawdd mewn ysgolion – Rhiannon Hawkins, cynrychiolydd person ifanc yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion ac ymddiriedolwr yn y Green Economics Institute / Climate Change in Schools – Rhiannon Hawkins, young person representative for the Royal College of Psychiatrists and trustee at the Green Economics Institute**

Mae RH wedi bod yn gweithio ar ddatblygu siarter hinsawdd sy'n seiliedig ar yr hyn y mae pobl ifanc ac athrawon yn dymuno ei ddysgu / addysgu mewn ysgolion yng Nghymru mewn perthynas â newid hinsawdd. Dechreuodd y fenter hon drwy gydweithio rhwng RH ac athro daearyddiaeth a oedd yn aelod o TIDE Global Learning. Arweiniodd y syniad hwn at gynhadledd a wnaeth ddwyn ynghyd pobl ifanc o bob rhan o dde Cymru.

Roedd y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar wahanol themâu ym maes newid hinsawdd, gan gynnwys arloesi technolegol at ddibenion sero net, gweithredu, ac effaith newid hinsawdd ar iechyd meddwl pobl.

Roedd gan y digwyddiad gwmpas cymdeithasol eang. Ei nod oedd rhoi mewnwelediadau gwahanol i'r bobl ifanc na fyddent wedi'u cael mewn amgylchedd ysgol, o bosibl.

O ganlyniad i'r gynhadledd, lluniodd y bobl ifanc a'r athrawon 10 o alwadau ynghylch y modd y maent yn dymuno gweld addysg hinsawdd yn cael ei darparu mewn ysgolion.

Sicrhaodd trefnwyr y digwyddiad cyllid gwerth £3,000 gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol addysgol, gyda Phrifysgol Caerdydd yn darparu'r lleoliad yn rhad ac am ddim.

Cynhelir cynhadledd ddilynol ym mis Rhagfyr, a fydd yn edrych ar sut mae ysgolion wedi gweithredu rhai o'r newidiadau a awgrymwyd a sut mae dysgu seiliedig ar hinsawdd wedi cael ei integreiddio mewn ysgolion.

Wrth symud ymlaen, y nod yw cynnal y cynadleddau hinsawdd hyn yn genedlaethol, gydag un gynhadledd yn cael ei chynnal ym mhob un o'r dinasoedd mawr.

Diolchodd LH i RH am y sgwrs. Nododd ei bod wedi gofyn am sgwrs bellach wrth iddi gydweithio â Llywodraeth Cymru at ddibenion darparu addysg hinsawdd ledled Cymru.

Soniodd DJ fod cynnig wedi'i gyflwyno yn y Senedd yn ddiweddar i ddiwygio'r cwricwlwm a'r canllawiau ynghylch addysg hinsawdd, ynghyd ag ymdrechion athrawon i fynd i'r afael â gorbryder hinsawdd.

Diolchodd PJ i RH am y sgwrs ragorol.

Ychwanegodd OJ ei fod wedi bod yn ddigon ffodus i fynd i'r gynhadledd. Nododd fod y canlyniadau'n syfrdanol, gyda 250 o bobl ifanc yn ychwanegu at y siarter hinsawdd. Dywedodd hefyd ei bod yn hynod bwysig peidio ag addysgu newid hinsawdd o safbwynt gwyddonol yn unig. Mae'r digwyddiad wedi dod â llawer o gyfleoedd ar gyfer gwaith cadarnhaol.

**Trafodaeth grŵp a chyflwyno gwaith diweddar / Group discussion and presentation of recent work**

Cynigiodd DJ y gallai'r grŵp trawsbleidiol gwrdd unwaith bob tymor wrth symud ymlaen, a hynny er mwyn annog Aelodau eraill o'r Senedd i fod yn bresennol.

Dywedodd RP fod Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi cyhoeddi strategaeth newydd ynghylch ariannu prosiectau integredig yn ymwneud â llesiant. Dywedodd wrth y grŵp fod y gronfa yn chwilio am ymgeiswyr.

Gofynnodd EO a oedd gan y grŵp unrhyw gynlluniau ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru, a fydd yn cael ei chynnal tua diwedd mis Tachwedd.

Dywedodd DJ fod y COP ieuenctid yn gysylltiedig â'r digwyddiad dan sylw. Ychwanegodd LH y bydd dau ddigwyddiad cysylltiedig yn cael eu cynnal – un yng Ngogledd Cymru ac un yn y de.

Nododd RH mai 6 Rhagfyr yw dyddiad y gynhadledd ynghylch newid hinsawdd ar gyfer pobl Ifanc ac athrawon.

**Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf / Any other business and date of next meeting**

Nid oedd unrhyw fater arall

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei bennu yn y dyfodol.